



Economi Cymru a Covid-19

YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
2. Rydyn ni'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Materion Cymreig ar economi Cymru a Covid-19. Diolchwn i'r mudiadau a'r unigolion hynny sydd wedi cyfrannu tystiolaeth at ein hymateb. Mae'r rhain yn cynnwys Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Cynnal Cymru a Thriniaeth Deg i Fenywod Cymru.

OES ANGEN CODI'R CYFYNGIADAU YN RADDOL LEDLED Y DU NEU A FYDD ANGEN I GYMRU DDATBLYGU EI CHYNLLUN EI HUN AR GYFER LLINIARU'R CYFYNGIADAU AR FUSNESAU NEU'R CYHOEDD?

3. Os bydd amrywiadau helaeth yn y cyfyngiadau symud mewn rhai manau o'r DU o'u cymharu ag eraill, mae yna botensial i'r ardaloedd hynny sy'n parhau i fod o dan gyfyngiadau symud fod dan anfantais economaidd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos gweinyddiaethau datganoledig sy'n dymuno i'r cyfyngiadau symud barhau ond nad ydynt â mynediad i'r rhaglenni cymorth cyfredol ledled y DU. Mae'n hanfodol ein bod yn deall rhyngddibyniaeth y cenhedloedd ar yr adeg dyngedfennol hon.

OES UNRHYW FUDD I GYMRU DDATBLYGU EI CHYNLLUN EI HUN ER MWYN LLINIARU CYFYNGIADAU SYMUD, AR WAHÂN I WEDDILL Y DU, A PHA MOR YMARFEROL FYDDAI CAEL CYNLLUN O'R FATH?

4. Gweler ein hateb i'r cwestiwn blaenorol. Er bod gwneud hyn yn bosibl, gallai arwain at anawsterau o ran plismona, cadwynau cyflenwi a gwasanaethau ar draws ffiniau. Mae'n anodd meddwl am fuddion economaidd ar gyfer y sefyllfa hon. Gan ystyried nifer y meysydd penderfynu datganoledig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymateb i'r argyfwng – e.e. iechyd, gofal, addysg ac ati – bydd angen cynlluniau priodol a chyfathrebiadau rhwng yr holl sectorau a'r cyhoedd.

PA HYBLYGRWYDD YCHWANEGOL SYDD EI ANGEN ER MWYN CEFNOGI DIWYDIANNAU TYMHOROL FEL TWRISTIAETH A FFERMIO YN YSTOD Y PANDEMIG?

5. Hyd yn hyn, gallai llawer o ddiwydiannau twristiaeth fod wedi colli incwm o ganlyniad i'r prinder busnes dros wyliau'r Pasg; ond bydd y sefyllfa'n gwaethygu yn y misoedd i ddod. Bydd mudiadau sy'n dibynnu ar incwm o deithiau ysgol hefyd yn cael eu taro'n galed yn ystod y tri mis nesaf os na fydd ysgolion yn dychwelyd cyn mis Medi. Bydd angen cymorth ychwanegol ar y mudiadau hyn drwy gydol 2020 a thu hwnt.
6. Mae rhannau o'r sector gwirfoddol yn cefnogi'r diwydiant twristiaeth, gan gynnwys grwpiau natur, adeiladau hanesyddol a chefn gwlad. Bydd gweithio gyda'r asiantaethau hyn yn darparu ymateb mwy cadarn.
7. Bydd bod ar gau dros yr haf hefyd yn golygu y bydd mudiadau'n colli cyfle i gofrestru aelodau newydd, a fydd yn effeithio ar ymgysylltu a gwirfoddoli yn ogystal â chyllid.

PA GYMORTH ARIANNOL YCHWANEGOL SYDD EI ANGEN AR ECONOMI CYMRU ER MWYN GALLU GOROESI YN YSTOD Y PANDEMIG A CHAEL EI HADFER MAES O LAW?

8. Bydd angen cryn dipyn o gymorth ar Gymru. Mae cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd a thegwch Fformiwla Barnett ar gyfer Cymru. Dylai cyllid gael ei ddosbarthu yn ôl yr angen ac nid yn ôl y boblogaeth.
9. Bydd angen cymorth ariannol hirdymor ar y sector gwirfoddol o hyd er mwyn chwarae ei ran yn y gwaith o adfer yr economi. Cyn yr argyfwng, roedd data'n dangos fod 28% o bobl yn gwirfoddoli bob blwyddyn, gan roi 61 miliwn o oriau gwirfoddoli. Mae'r gweithgarwch hwn yn werth £757 miliwn i economi Cymru. Gan ystyried gwerth gwirfoddolwyr yn ystod adegau mwy arferol, beth yw gwerth gweithgarwch gwirfoddoli yn ystod y pandemig hwn?
10. Bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn hanfodol o ran galluogi adferiad economaidd effeithiol. Rhaid i drafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar sut i weinyddu'r Gronfa barhau, er gwaetha'r argyfwng. Rydyn ni'n credu mai Llywodraeth Cymru ddylai gweinyddu'r gronfa hon, fel y bydd yn gallu mabwysiadu rhaglenni sydd wedi'u teilwra at anghenion pobl a chymunedau Cymru. Mae'r nifer sylweddol o swyddi y

disgwylir eu colli yn sgil pandemig COVID-19 yn amlinellu'r angen i unrhyw olynydd ganolbwyntio ar gyflogadwyedd, sgiliau a chynhwysiant.

11. Yn ogystal, rhaid i ni gofio am oblygiadau Brexit. Mae Covid-19 wedi dangos bod angen i ni gael cydberthynas gref ag Ewrop ar gyfer gwaith ymchwil a chyflenwad cynhyrchion hanfodol.
12. Ar ôl yr argyfwng, bydd angen ailfeddwl sut mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru'n cysylltu â rhaglenni prif ffrwd fel y rheini sy'n cael eu rhedeg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn parhau i gynyddu.
13. Dylai grantiau fod ar gael i gefnogi buddsoddiad newydd a allai gefnogi ardaloedd sy'n methu gan na all ffynonellau rhyngwladol ymdopi. O fewn y DU, dylai cymorth fodd ar gael i'r busnesau hynny sy'n gallu datblygu'r gallu i gynhyrchu cyfarpar diogelu personol.
14. Roedd y sector eisoes yn ei chael hi'n anodd ar ôl cynni ac ansicrwydd Brexit. Mae'r hyblygrwydd sydd wedi'i ddangos gan gyllidwyr yn yr argyfwng hwn yn beth da, ond mae wedi pwysleisio'r angen am fwy o gyllid ac adnoddau parhaus ar gyfer gwasanaethau a gweithgareddau'r sector seilwaith a rheng flaen, yn enwedig os ydym yn mynd i harneisio'r ymdrech gyfunol sydd wedi'i chreu drwy'r pandemig a chynnal yr asedau sy'n bodoli a'r rhai sydd wedi ymddangos yn ein cymunedau.
15. Mae'r cyfyngiadau symud wedi achosi mwy o broblemau i'r rheini sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Pan fydd y cyfyngiadau ar ben, mae'n siŵr y bydd mwy o alw am wasanaethau iechyd meddwl. Bydd angen adnoddau ar y rhain.
16. Bydd angen mwy o gyllid ar fyrddau iechyd er mwyn sefydlu neu wella'r llwybrau cyfredol sydd gan gleifion i arbenigwyr y tu allan i'r ardal ar ôl y cyfyngiadau symud er mwyn ceisio osgoi oediadau a thagfeydd yn y system.
17. Mae anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli o fewn y sector a'r gymdeithas ehangach wedi'u hamlygu ymhellach yn ystod yr argyfwng. Yn aml, mae gan grwpiau sy'n diwallu anghenion cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig y lleiaf o adnoddau, ond maen nhw'n cyflawni swyddogaeth hanfodol yn cefnogi pobl wedi'u hymyleiddio, yn enwedig gan ystyried y ffaith y gallai grwpiau cymunedol llai o faint fod heb gyswllt digidol. Yn yr un modd, nid oes gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches fynedig at gyllid cyhoeddus ac nid oes cynlluniau eglur i'w cefnogi ar ôl yr argyfwng.
18. Mae'n rhaid i unrhyw gyllid a ddosberthir yn ystod ac ar ôl y pandemig barhau i gadw at y [Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru](#).

PA MOR EFFEITHIOL YW'R CYDWEITHIO RHWNG LLYWODRAETH Y DU A LLYWODRAETH CYMRU O RAN SICRHAU BOD DIGON O GYMORTH YN CAEL EI DDARPARU AR GYFER ECONOMI CYMRU YN YSTOD AC AR ÔL Y PANDEMIG?

19. Nid yw cyhoeddiadau gan San Steffan yn cyfeirio bob amser at gyllid canlyniadol i Gymru a chenhedloedd eraill. Dylid cyfrifo a chyhoeddi'r rhain ar yr un pryd er mwyn osgoi ymddangos fel ôl-ystyriaeth. Byddai hyn yn helpu i leihau'r teimlad o ddatgysylltiad rhwng y ddwy lywodraeth.
20. Dylai'r llywodraethau fod yn gweithio gydag eraill, unigolion a chymunedau, i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng ac i benderfynu ar strategaeth wrth fynd ymlaen. Fu cyfathrebu eglur a hygyrch erioed mor bwysig.

PA BWERAU ARIANNOL A HYBLYGRWYDD CYLLIDEBOL DDYLAI GAEL EU CYFLWYNO I LYWODRAETH CYMRU MEWN YMATEB I'R PANDEMIG?

21. Mae angen eglurder ynghylch pa arian sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrannu at yr ymateb ledled y DU a beth wedyn sy'n cael ei ddatganoli. Mae angen mwy o hyblygrwydd yng Nghymru er mwyn osgoi fframweithiau sy'n gwahanu cyllid cyfalaf a refeniw – gallai cyfyngiadau o'r fath lesteirio twf economaidd.
22. Dylid cytuno ar drefniadau ar lefel genedlaethol er mwyn galluogi llwybrau i'r sector cyhoeddus gydweithio gyda'r trydydd sector a chryfhau ein gallu i ymateb ac osgoi cael ein hanwybyddu neu ailddyfeisio'r olwyn – drwy drefniadau compact effeithiol, er enghraifft. Yn ogystal, mae'n bwysig pan fydd cyllid yn cael ei ryddhau i bartneriaid statudol – megis i gefnogi cymorth mawr ei angen ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty – fod y trydydd sector yn cael ei gynnwys yn benodol yn y buddsoddiad ychwanegol.

PA GEFNOGAETH SYDD EI HANGEN GAN Y SECTOR BANCIO I ALLU CEFNOGI BUSNESAU A MUDIADAU YN YSTOD Y PANDEMIG A'R CYFNOD AILADEILADU DILYNOL?

23. Mae problem o ran elusennau canolig eu maint ledled y DU, sydd â throsiant rhwng £1 miliwn a £5 miliwn, sy'n cael eu hanwybyddu yn y strwythur cymorth. Mae angen cymorth arnyn nhw hefyd.
24. Busnesau bach neu ficro yw mentrau cymdeithasol fel arfer ac mae llawer ohonynt yn sefydliadau newydd, sy'n golygu nad ydynt wedi cael amser i dyfu'r buddsoddiad na'r seilwaith angenrheidiol i'w galluogi i barhau i fod yn wydn mewn cyfnod lle mae llai o alw. Mae mentrau cymdeithasol llai o faint mewn perygl o gau ac angen cymorth.
25. Mae problemau wedi codi o ran dull y banciau o fenthycia ar gyfer cynlluniau'r llywodraeth. Bydd angen i Lywodraeth y DU sicrhau bod banciau'n dilyn y cyfarwyddiadau.

PA GYMORTH SYDD EI ANGEN AR RANNAU ALLWEDDOL O'R BOBLOGAETH, GAN GYNNWYS YR HENOED A'R RHEINI SYDD NEWYDD DDOD YN DDIWAITH, GAN LYWODRAETH Y DU A LLYWODRAETH CYMRU YN YSTOD AC AR ÔL Y PANDEMIG?

26. Mae diweithdra'n debygol o fod ar ei uchaf am gyfnod hir. Bydd cymunedau sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd yn ei chael hi'n anoddach fyth. Bydd angen mynd ati i ddarparu'r gwasanaethau ar gyfer y cymunedau hyn mewn gwahanol ffordd, drwy ymgysylltu â'r cymunedau eu hunain. Bydd hyn yn gofyn am gyllid, cynlluniau a chymorth, yn ogystal â chyfleoedd i bobl ail-hyfforddi er mwyn symud i swyddi lle mae prinder staff. Gallai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU gefnogi'r gwaith hwn.
27. Gall yr [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#), a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru, helpu gyda'r gwaith ymgysylltu hwn.
28. Mae'n debygol y bydd yr henoed a grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn cael eu heffeithio'n aruthrol. Bydd y rheini sy'n poeni ynghylch mynd allan yn y gymuned angen cymorth i fagu eu hyder a'u helpu i oresgyn problemau emosiynol. Bydd angen pwyslais hefyd ar ofal yn agosach at adref neu yn y cartref neu'r gymuned. Fel y nodwyd yn ymateb Cynnal Cymru, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyflog ac amodau gwaith teg i'r rheini sy'n gweithio yn y sector gofal. Gwnaeth Cronfa Her yr Economi Sylfaenol gyflwyno nifer o grantiau i beilotia'r defnydd o dechnoleg er mwyn gwella gwasanaethau i grwpiau agored i niwed. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu'n gyflym i asesu effaith y cynlluniau peilot hyn ac i gefnogi eu cyflwyniad ehangach pan fyddan nhw wedi profi i fod yn effeithiol.
29. Fel y nodwyd gan Triniaeth Deg i Fenywod Cymru yn eu hymateb, gall menywod sydd wedi profi oedi diagnostig wynebu problemau wedyn wrth geisio cael gafael ar gymorth, a gall hyn eu hatal rhag gweithio. Ar ddiwedd y cyfyngiadau symud, mae'n bosibl y byddwn ni'n gweld gwasanaethau'n cael eu hail-flaenoriaethu, a fydd yn gosod pobl yn ôl yng nghefn y ciw am wasanaethau sydd eu hangen yn fawr arnyn nhw. Dylai'r Llywodraeth weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau a mudiadau i edrych ar sut i atal hyn rhag digwydd.
30. Gallem ni hefyd weld cynnydd mawr yn nifer y bobl sy'n chwilio am wasanaethau gan fudiadau cam-drin domestig ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben, pan fydd pobl gyda fwy o ryddid i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gweithio gyda mudiadau i'w paratoi a'u cefnogi nhw i ymdrin â'r cynnydd hwn yn y galw.
31. Mae elusennau ac asiantaethau arbenigol ar gael sy'n cefnogi'r holl bobl a dderbyniodd lythyrau gwarchod a phobl yn y categorïau grŵp agored i niwed ehangach, o elusennau sy'n gweithio gyda phobl hŷn i'r rheini sydd angen tai, pobl sy'n gaeth i rywbeth, sydd ag anghenion ychwanegol a chyflyrau iechyd hirdymor. Bydd gweithio gyda'r mudiadau arbenigol hyn, eu staff a'u gwirfoddolwyr (sydd wedi profi'r pethau hyn yn aml) yn ychwanegu'n helaeth at unrhyw ymateb polisi ac arfer.
32. Mae'r economi'n debygol o weld dirywiad yn ystod yr argyfwng a phan fydd y cyfyngiadau symud wedi dod i ben, ond ni ddylid torri'r buddion i bobl agored i niwed o ganlyniad.

BETH ELLIR EI WNEUD I SICRHAU BOD ECONOMI CYMRU'N FWY GWYDN I WYNEBU ARGYFYNGAU I DDOD AC UNRHYW ACHOSION PELLACH O COVID-19 AC

UNRHYW BANDEMIG ARALL?

33. Gall Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chronfeydd eraill helpu i greu etifeddiaeth fwy hirdymor ar gyfer Cymru drwy ddefnyddio modelau ariannol ad-daladwy, nid grantiau.
34. Wrth symud ymlaen, mae'n bwysig nad oes gorddibyniaeth ar un math penodol o swydd, sector neu gwmni a allai, pe bai problem arall sylweddol yn digwydd yn fyd-eang, achosi problemau lleol sylweddol pe bai dim ond un cwmni neu fudiad yn cau.
35. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wedi profi eu bod yn amhrisiadwy yn ystod yr argyfwng hwn, ond maen nhw ymhlith y rhai sy'n cael eu talu lleiaf. Dylid buddsoddi mwy mewn cyflogau a hyfforddiant yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn annog mwy o bobl i ddewis gyrfa yn y sector hwn ac aros yng Nghymru.
36. Mae cylchau cyllido un blynedd ar gyfer y sector gwirfoddol yn gwneud llawer o waith y sector yn sigledig ac yn ansicr – ychydig iawn o amser, os o gwbl, sydd i gynllunio, darparu gwasanaethau, recriwtio a chadw staff ac i werthuso'r gwasanaethau sydd wedi'u darparu. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn yr hirdymor a rhaid rhoi sylw i hyn. Mae'r sector yn chwaraewr pwysig yn economi Cymru, yn cynrychioli wyth y cant o gyflogaeth, a rhaid ei adnoddu er mwyn helpu'r economi i fod yn fwy gwydn.
37. Mae sicrhau bod y sector gwirfoddol yn rhan o'r man gwydn lleol a strategol yn hanfodol. Ymgysylltu achlysurol sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dengys y profiad o'r argyfwng y byddai mwy o wydnwch yn cael ei ymwreiddio pe bai gwydnwch yn cael ei gynllunio mewn modd mwy cydlynol wrth fynd ymlaen.

SUT BYDD ANGEN I GADWYNAU CYFLENWI DDATBLYGU AR ÔL Y PANDEMIG HWN A SUT GALL Y DDWY LYWODRAETH GYDWEITHIO I GEFNOGI'R NEWIDIADAU HYN?

38. Yn aml, bydd yn well gan elusennau a mentrau cymdeithasol gael cynhyrchion lleol. Rhaid i'r sector gael ei gyllido'n ddigonol yn y dyfodol er mwyn parhau i wneud hyn.
39. Fodd bynnag, mae Covid-19 wedi dangos sut mae gwledydd gwahanol yn dibynnu ar ei gilydd ar gyfer amrediad eang o gynhyrchion. Gwlad fechan yw Cymru ac mae'n debygol o golli allan i wledydd mwy o faint sydd eisiau archebion mwy o faint. Os bydd Cymru'n aros y tu allan i system gaffael y DU/UE, bydd dan anfantais oherwydd ni fydd yn gallu negodi ar raddfa fawr.

PA WERSI GELLIR EU DYSGU O'R PANDEMIG AC O YMATEB GWLEDYDD ERAILL ER BUDD ECONOMI CYMRU YN Y DYFODOL?

40. Mae'n rhaid i Gymru edrych ar wledydd eraill i ddeall sut mae eraill wedi ymdrin â'r broblem a'r effaith y mae mesurau penodol yn ei chael ar lesiant a'r economi. Efallai y galla'r Fforwm Cymdeithas Sifil ar Brexit a'r amrywiaeth o bartneriaid Ewropeaidd sydd gan CGGC nodi rhai pethau y gellid eu dysgu a'u rhannu.
41. Mae angen i ni feddwl sut gallwn edrych ar benderfyniadau buddsoddi o ochr mwy hirdymor. Mae gwasanaethau cyngori, er enghraifft, wedi gweld dirywiad sylweddol mewn niferoedd yn y gorffennol diweddar, ond maen nhw bellach yn adrodd cynnydd yn y galw am gyngor ar bethau megis Cyflog Salwch Statudol a'r Credyd Cynhwysol. Mae un darparwr lleol wedi dweud wrthym ei fod wedi gorfod aildefnyddio a chynnig hyfforddiant carlam i aelod ychwanegol o staff er mwyn mynd i'r afael â'r galw. Mae cyngor ar ddyledion a throi allan / ailfeddiannu / digartrefedd yn debygol o barhau i gynyddu am gryn amser i ddod.
42. Er mwyn bod yn fwy parod ar gyfer y tro nesaf, mae angen i elusennau gael mwy o incwm anghyfyngedig gan yr holl gyllidwyr er mwyn eu galluogi i ddiweddarau systemau, prosesau a chyfarpar a fydd yn eu gwneud yn fwy hyblyg.

TRAFODAETH

43. Bydd CGGC yn fwy na bodlon trafod y pwyntiau hyn neu unrhyw bwyntiau eraill sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn gyda swyddogion, pwyllgorau neu Weinidogion yn ôl y gofyn.

David Cook
Swyddog Polisi, CGGC
dcook@wcva.cymru
15 Mai 2020